



Pennaeth / Headteacher  
**MEINIR L ROBERTS BAdd.**



ysg2154@ynysmon.gov.uk

**03/03/2020**

### **Moderneiddio Ysgolion Dalgylch Llangefni**

Fel y gwyddoch, mae'r Cyngor wedi cychwyn ar y broses o ymgynghori gyda'r cyhoedd ar eu cynnig o gau Ysgol Talwrn ac ymestyn Ysgol y Graig.

Mae'r cyfnod ymgynghori wedi dechrau ers y 6ed o Chwefror 2020 ac yn cau am 5yh ar yr 20fed o Fawrth 2020.

Mae'r holl ddogfennau ymgynghori a'r ffurflen ymateb ar gael ar wefan y Cyngor:

<https://www.ynysmon.gov.uk/ymgyngoriad-statudol-ysgol-y-graig-ac-ysgol-talwrn>

Mae'n hynod bwysig fod pawb yn ymateb i'r ddogfen ymgynghori gan fynegi dyheadau a phryderon.

Mae croeso i chwi alw yn yr ysgol am banded a sgwrs er mwyn trafod y cynnig ar Ddydd Llun, Mawrth y 9fed rhwng 3.15yh a 4.15yh.

### **Cyngor a Chefnogaeth Diogelu Digidol / School Gateway / ClassDojo**

Os hoffech chi ddysgu mwy am sut i gadw'ch plant yn ddiogel wrth ymdrin gyda cyfryngau cymdeithasol ac appiau, yna fe fydd staff yr ysgol ar gael i gyfarfod gyda chwi ar brynhawn Dydd Llun, Mawrth y 9fed rhwng 3.15yh a 4.15yh. Bydd hefyd cyfle i ddatrys unrhyw broblemau rydych yn ei gael gyda'r app School Gateway neu Classdojo. Dewch draw am banded!

### **Dyddiadau Hyfforddiant Mewn Swydd**

Fe fydd yr ysgol ar gau i'r holl ddisgyblion ar Ddydd Llun Mehefin y 1af a Dydd Mawrth Mehefin yr 2il. Mae hyn er mwyn i'r staff dderbyn hyfforddiant er mwyn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd fydd yn dod i rym yn 2022.

Yn gywir,  
Meinir Roberts  
Pennaeth

